
# Senario 1



**Gwybodaeth Gefndir:**

'Da chi mewn parti mewn tŷ ac mae rhywun yn cynnig paced yn cynnwys powdwr gwyn mân iawn i chi. Maen nhw'n dweud wrtha' chi ei fod o fel cocên. 'Does 'na ddim cyfarwyddiadau ar y paced yn dweud faint ddylech chi gymryd a dim gwybodaeth arall o unrhyw fath chwaith.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?

# Senario 2



**Gwybodaeth Gefndir:**

'Da chi'n ffrindiau efo criw sy'n defnyddio Canabis yn rheolaidd. Un diwrnod mae rhywun yn cynnig sigarét sydd wedi ei wneud allan o rywbeth a ddaeth allan o becyn lliwgar i'w ffrind. Mae'r person yn dweud fod y sigarét yn hollol ddiogel a chyfreithlon.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?

# Senario 3



**Gwybodaeth Gefndir:**

Mae'n nos Sul a 'da chi a'ch ffrindiau yn cael diod neu ddau. Mae un o'r grŵp yn herio'r gweddill i gymryd tabled y mae o wedi ei ddwyn oddi ar ei frawd hyn. Mae o'n dweud bod ei frawd wedi prynu'r tabledi ar y rhyngrwyd â'u bod nhw'n ddiogel i'w cymryd.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?

# Senario 4



**Gwybodaeth Gefndir:**

'Da chi a'ch ffrindiau'n mynd i barti ar gyfer pobl ifanc dan 16 oed mewn clwb nos lleol. Mae merch yn y clwb yn cynnig tabled i un o'ch ffrindiau. Mae hi'n dweud fod y tabled yn hollol gyfreithlon ac y bydd yn cael yr un effaith ag un neu ddau o ddiodydd alcoholig.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?

# Senario 5



**Gwybodaeth Gefndir:**

Mae criw o ffrindiau'n loetran o amgylch y parc lleol gyda'r nosau. Un noson mae un ohonyn nhw'n cynnig powdwr i bawb - mae o'n dweud fod y powdwr yn ddiogel.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?

# Senario 6



**Gwybodaeth Gefndir:**

Mae criw o ffrindiau wedi gweld clip YouTube o rywun yn cymryd SSN ac maen nhw'n penderfynu copïo'r ffilm.

Mae'r grŵp yn penderfynu y bydd pawb yn cymryd eu tro i ysmygu sigarét yn cynnwys SSN ac maen nhw am ffilmio hyn ar eu ffonau clyfar. Chi fydd y trydydd i ysmygu'r sigarét.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?

# Senario 7



**Gwybodaeth Gefndir:**

Pan oeddech chi mewn cyngerdd awyr o agored roedd ffrind i ffrind yn anadlu SSN. 'Da chi wedi sylwi yn ddiweddar ar ffotograffau o bobl adnabyddus yn gwneud yr un peth. Oherwydd ei fod o wedi gweld y lluniau yma, mae eich ffrind yn meddwl fod cymryd SSN yn ddiogel ac mae o'n penderfynu eu trio nhw drosto'i hun.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?

# Senario 8



**Gwybodaeth Gefndir:**

Pan 'da chi mewn cyngerdd 'da chi'n sylwi ar rywun yn gwerthu balŵns llawn Ocsid Nitraidd. Mae un o'ch ffrindiau yn penderfynu prynu un ac mae'n ei gynnig o amgylch gweddill y grŵp.

**Eich tasg:**

- Beth ydi'r risgiau?
- Beth allai'r canlyniadau fod?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn y sefyllfa yma?